**Cyfraddau llog**

Yn gywir ar 31 Ionawr 2024

# Ein cyfraddau llog

Darllenwch y daflen hon er mwyn cael y cyfraddau diweddaraf ar gyfer ein hystod o gynilion a buddsoddiadau.

NS&I

Cyfraddau llog

# Beth sydd ar werth ar hyn o bryd

## ISA Uniongyrchol

**3.00%**
di-dreth/AER

| Amrywiol | |
|---|---|
| Swm | **£1+** |
| Gwybodaeth am dreth | **Di-dreth** |

## ISA Iau

**4.00%**
di-dreth/AER

| Amrywiol | |
|---|---|
| Swm | **£1+** |
| Gwybodaeth am dreth | **Di-dreth** |

## Cyfrif Buddsoddi

**1.00%**
gros/AER

| Amrywiol | |
|---|---|
| Swm | **£1+** |
| Gwybodaeth am dreth | **Trethadwy** |

## Cynilwr Uniongyrchol

**3.65%**
gros/AER

| Amrywiol | |
|---|---|
| Swm | **£1+** |
| Gwybodaeth am dreth | **Trethadwy** |

## Bondiau Incwm

**3.59%/3.65%**
gros/AER

| Amrywiol | |
|---|---|
| Swm | **£500+** |
| Gwybodaeth am dreth | **Trethadwy** |

## Bondiau Cynilo Gwyrdd

**2.95%**
gros/AER

| Sefydlog | |
|---|---|
| Swm | **£100+** |
| Gwybodaeth am dreth | **Trethadwy** |
| Tymor 3 blynedd, Cyhoeddiad 6 | |
| Cyfradd wedi'i gwarantu am 3 blynedd | |
| Dim mynediad cynnar | |

## Bondiau Premiwm

Ewch i'n gwefan:
**nsandi.com/prize-draw**

Yma cewch fanylion am gronfa wobrau Bondiau Premiwm, gan gynnwys:

- Nifer a gwerth y gwobrau
- Yr ods ar gyfer ennill
- Cyfradd llog gyfredol y gronfa wobrau

Neu ffoniwch ni i ofyn am ein taflen manylion cystadleuaeth tynnu rhifau Bondiau Premiwm

Cyfraddau llog

# Cyfrif Gweddilliol

Os byddwn wedi cau cyfrif neu fuddsoddiad NS&I ac wedi methu â chysylltu â'r cwsmer i ddychwelyd yr arian, byddwn yn trosglwyddo'r arian i'n Cyfrif Gweddilliol i'w gadw'n ddiogel hyd nes y bydd y cwsmer yn cysylltu â ni. Mae dau fath o ddaliad yn y Cyfrif Gweddilliol:

## Daliadau Math A: Yn ennill llog

**0.25%**
gros/AER

| Amrywiol | |
|---|---|
| Swm | **£1+** |
| Gwybodaeth am dreth | **Trethadwy** |

- Bondiau Bonws Plant
- Cyfrif Cynilo Mynediad Rhwydd
- Bondiau Incwm Gwarantedig Pensiynwyr
- Bondiau Cyfalaf
- Cyfrif Cyffredin
- Bondiau Cadw
- Cynllun Blynyddol
- SAYE
- Cyfrif y Trysorydd
- Bondiau Twf Buddsoddiad Gwarantedig

**Tymhorau 6 mis a 18 mis o'r canlynol ar ôl aeddfedu:**

- Bondiau Twf Gwarantedig
- Bondiau Incwm Gwarantedig

## Daliadau Math B: Dim llog yn daladwy

**Dim llog yn daladwy**

- Tocynnau Anrheg
- Stampiau Cynilo
- Bondiau Cynilo Prydeinig

Cyfraddau llog

# Tystysgrifau Cynilo

## Cyhoeddiadau Hŷn o Dystysgrifau Cynilo

Ers 11 Tachwedd 2013, mae Tystysgrifau Cynilion Rhyfel (1916-1920) a Chyhoeddiadau 2-43 Tystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog yn ennill y Gyfradd Estynedig Gyffredinol (amrywiol): 0.30% y flwyddyn yn ddi-dreth/AER ar hyn o bryd (o 16 Mai 2023).

Ers 11 Tachwedd 2013, mae Cyhoeddiadau 1-9 Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol wedi ennill mynegrifo (RPI) yn unig. O ben-blwydd nesaf pob Tystysgrif, sy’n digwydd ar neu ar ôl 1 Mai 2019, byddwn yn cyfrifo’r mynegrifo gan ddefnyddio’r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn lle hynny. Yn gyffredinol, mae’r CPI yn is na’r RPI, felly mae hyn yn golygu y bydd adenillion cwsmeriaid sy’n parhau i ddal y Tystysgrifau hyn yn debygol o fod yn is. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **nsandi.com/extension-terms**

# Gwybodaeth am y dreth

## Lwfans Cynilion Personol

Yn 2016, cyflwynodd Cyllid a Thollau EM Lwfans Cynilion Personol di-dreth o £1,000 ar y llog a enillwch ar eich cynilion (neu £500 i drethdalwyr cyfradd uwch). Nid oes Lwfans Cynilion Personol gan drethdalwyr sy’n talu’r gyfradd ychwanegol.

Gallwch lawrlwytho taflen ffeithiau amdano trwy chwilio am ‘Lwfans Cynilion Personol’ neu ‘Personal Savings Allowance’.

Mae’r llog a enillwch ar unrhyw gynilion NS&I trethadwy yn cyfrif tuag at eich Lwfans Cynilion Personol, ynghyd ag unrhyw log a enillwch ar gynilion trethadwy o ddarparwyr eraill.

## Diffiniadau

Dyma rai diffiniadau o'r termau allweddol a welwch yn y daflen hon:

**AER (Cyfradd Gyfwerth Flynyddol)**

Mae hyn yn dangos beth fyddai'r gyfradd llog flynyddol pe byddai'r llog yn cael ei adlogi bob tro y'i telir. Lle y telir llog yn flynyddol, mae'r gyfradd a ddyfynnir a'r AER yr un peth.

**CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr)**

Dyma'r mesur chwyddiant a ddefnyddiwn i gyfrifo newidiadau yng ngwerth Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol sy'n cael eu hadnewyddu ar neu ar ôl 1 Mai 2019. Mae'r CPI yn cael ei lunio a'i gyhoeddi'n fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). I wirio'r CPI, ewch i wefan yr ONS yn **ons.gov.uk** a chwilio am 'CPI All Items Index'.

**Gros**

Y gyfradd llog drethadwy heb ddidynnu Treth Incwm y Deyrnas Unedig.

**RPI (Mynegai Prisiau Manwerthu)**

TDyma'r mesur chwyddiant a ddefnyddiwn i gyfrifo newidiadau yng ngwerth Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol a gafodd eu hadnewyddu ar neu cyn 30 Ebrill 2019. Mae'r RPI yn cael ei lunio a'i gyhoeddi'n fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). I wirio'r RPI, ewch i wefan yr ONS yn **ons.gov.uk** a chwilio am 'RPI All Items Index'.

**Di-dreth**

Mae hyn yn golygu bod y llog wedi'i eithrio rhag Treth Incwm a Threth Enillion Cyfalaf y Deyrnas Unedig.

Cyfraddau llog

# Cysylltu a helpu

Ewch i'n gwefan yn **nsandi.com**

Ffoniwch ni ar **08085 007 007**

Rydym ni yma yn y Deyrnas Unedig bob dydd heblaw gwyliau banc. Mae galwadau o'r Deyrnas Unedig am ddim. Gallai eich galwad gael ei recordio i'n helpu i roi'r gwasanaeth gorau i chi.

Anfonwch neges drydar atom **@nsandihelp**

Ysgrifennwch atom yn **NS&I, Sunderland SR43 2SB**

## A oes angen fformat gwahanol arnoch?

Gofynnwch i ni am gael fersiwn:

- Braille
- Tâp sain
- Cryno ddisg
- Print bras

## A ydych chi'n drwm eich clyw neu â nam lleferydd?

Gallwch gysylltu â ni trwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Testun: deialwch **18001** trwy'ch ffôn testun ac yna rhowch ein prif rif ffôn.

Mae'r holl gyfraddau yn y daflen hon yn gywir ar yr adeg argraffu. Ewch i'n gwefan i weld y cyfraddau diweddaraf.

Mae National Savings and Investments yn Nod Masnach y Cyfarwyddwr Cynilion

Cynhyrchwyd ym mis Chwefror 2024 NS&I 772 W (2024/01)